Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

16 Mai 2022, 2.30PM

### Trwy Teams

## Cofnodion

### Presennol:

Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Su Gordon-Graham (SGG), Attain (Rhan)
Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cyng Tessa Hodgson (CyngTH) Cyngor Sir Penfro
Sian Howys (SH), Cyngor Sir Ceredigion
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Hazel Lloyd-lubran (HLL), Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion (Is-gadeirydd)
Elaine Lorton (EL), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gareth Morgan (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaethau
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Cyng Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol:

Kelvin Barlow (KB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Michael McClymont (MM), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Sharon Breakwell (SB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

### Ymddiheuriadau

Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Cyng Alun Williams (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steve Moore (SM), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cyng. Gareth John (CyngGJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## 1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd Judith Hardisty bawb i'r cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 a chamau gweithredu

Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Rhoddodd KB ddiweddariadau ar y camau gweithredu sydd ar weithredu melyn ar y tabl camau gweithredu isod.

**GWEITHREDU:** Dylid cael gwared â'r trafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn o'r cofnod camau gweithredu, ond nodwyd y byddwn eisiau edrych ar sut rydym yn ymgysylltu â'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn y dyfodol. Dylid diweddaru dyddiadau'r Cofnod Camau Gweithredu i ddweud 2022 yn lle 2021.

## 3. Datblygu Clwstwr Carlam

Rhoddodd EL gyflwyniad ar y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam sy'n cynnwys elfen y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr. Diolchodd JH i EL am ei chyflwyniad a chroesawodd drafodaeth neu gwestiynau ar y cyflwyniad.

**GWEITHREDU:** Bydd EL yn rhannu ei chyflwyniad gyda KB i'w ddosbarthu i'r grŵp.

Roedd JM yn credu fod y cyflwyniad yn ddiddorol a diolchodd i EL am fynd â'r grŵp yn eglur trwy fwriadau'r Llywodraeth. Dywedodd ei fod yn deall beth yw rolau'r clystyrau yn cynllunio a darparu gofal, a bod dadleuon da iawn dros gyflawni'r holl fodelau, ond ei bryder oedd ei fod yn cyflwyno darlun dryslyd o safbwynt Awdurdod Lleol ynghylch y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn trefnu ei hun, gan fod bwriad canoli rhai elfennau , eraill yn aros ar lefel sirol a rhai ar lefel y clystyrau.

Ychwanegodd JM nad yw'n feirniadaeth o'r papur a gyflwynwyd heddiw, ond dywedodd ei fod yn sylweddoli fod gennym lawer o waith i'w wneud fel rhanbarth, heb ddadlau o blaid unrhyw fodel arbennig, ond dywedodd os nad yw ef yn deall i ba gyfeiriad mae'r bwrdd iechyd yn mynd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau, yna sut mae disgwyl i'r cyhoedd ei ddeall neu sut fyddai grwpiau eraill fel mudiadau gwirfoddol yn cymryd rhan yn y broses. Dywedodd fod gallu esbonio hyn yn bwysig, ac efallai mai dyma'r cyfle i greu rhai diffiniadau fel rhanbarth gan y bydd yn helpu cael gwared â thensiynau diangen wrth gynllunio gwasanaethau oherwydd diffyg eglurder. Ymatebodd EL trwy ddweud fod hyn yn fater o roi sylw i gynllunio a darparu seiliedig ar le sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth ac sy'n cael ei wneud ar y cyd a gyda'n gilydd. Roedd yn cydnabod fod y lefel yr ydym yn darparu gwasanaethau arni yn heriol a bod angen gwneud llawer o waith yn y flwyddyn sylfaen. Aeth ymlaen i ychwanegu fod y Tîm Cenedlaethol wedi rhoi'r pecyn gwaith a'r canllawiau inni, ac y gallwn ninnau ddehongli, diffinio a gweithredu gan ddefnyddio gallu lleol.

Dywedodd JG fod y deilliannau'n uchelgeisiol ac eang iawn, sy'n cadarnhau maint yr her. Gofynnodd sut ydyn ni'n alinio'r llywodraethu gwleidyddol ar draws awdurdodau lleol yn y broses hon. Dywedodd fod gennym y potensial i newid sut rydym yn gweithio gydag amser. Anogodd y grŵp i ddal gafael ar y ffaith ein bod yn gwneud cynnydd da

o ran dod â'n prosesau at ei gilydd, sy'n ein rhoi mewn lle da i gyflawni ar sail y deilliannau uchelgeisiol hyn. Gofynnodd i aelodau'r bwrdd barhau'n gadarnhaol er gwaetha'r heriau rydym yn eu hwynebu.

Yn y drafodaeth a ddilynodd cytunodd pobl eraill fod angen inni gael gwared â'r jargon, gwneud synnwyr o rai o'r acronymau a mynd lawr i hanfod beth rydym yn ceisio'i wneud gyda'n gilydd ar bob lefel fel y gallwn wneud synnwyr ohono. Bydd cael y naratif yn iawn yn ei gwneud yn rhwyddach i esbonio i'n poblogaeth.

Gofynnodd HLL i'r grŵp feddwl yn ymarferol am y cysylltiad rhwng datblygu clwstwr carlam a'r BPRh, y drefn adrodd, sef bod yn gyswllt ymarferol rhwng hwn a chyrff gwneud penderfyniadau eraill. Roedd yn credu fod yr amseru yn dda ar gyfer meddwl trwy rywfaint o hynny, ac roedd yn meddwl y byddem yn colli cyfle pe na baem yn alinio cyfleoedd buddsoddi ac fe fydd llawer o grwpiau trydydd sector eisiau bod yn rhan o'r broses hon. Ei phryder mwyaf am ddeilliannau'r fframwaith datblygu clwstwr yw mai mater o systemau yn hytrach na phobl yw'r cyfan, a'r dull canolbwyntio ar yr unigolyn yw'r un y dylem oll ymrwymo i'w gyflawni. Atebodd EL trwy ddweud, pan edrychwch ar ddeilliannau'r fframwaith ar gyfer y model gofal sylfaenol i Gymru, fod yna ddeilliannau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn yno. Y grwpiau cynllunio Traws-glwstwr yw'r lle sy'n dod â'r cynllun a'r uchelgais at ei gilydd ar draws y system ac sy'n diffinio pa wasanaethau mae angen eu comisiynu.

Soniodd KB am beth o'r gwaith sy'n cael ei wneud i geisio alinio'r llywodraethiant o dan y BPRh, ac nid yn unig datblygu clwstwr carlam ond hefyd y gwaith gofal heb ei drefnu a brys ynghyd â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Dywedodd ein bod yn ceisio gwneud yr hyn sy'n gymhleth ar lefel polisi yn hawdd ei ddeall a'i gyfathrebu ac osgoi dyblygu. Dywedodd y bydd bod yn gliriach ar lefel y bwrdd am beth yw ein blaenoriaethau yn helpu llywio'r gwaith y mae ei dîm yn ceisio'i wneud yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

Dywedodd EL fod yna risg fel yr esboniodd pawb yn glir, ein bod yn ceisio ticio pob bocs a bod hynny'n ein rhwystro rhag deall o ddifrif beth mae angen inni'i wneud mewn partneriaeth ar gyfer ein poblogaeth a deall a gweithio gyda'n poblogaeth. Dywedodd ei bod yn credu y byddwn yn llwyddiannus os cymerwn ysbryd hyn, a ddylai fod yn esbonio fod angen inni ddod at ein gilydd gydag ac o gwmpas ein poblogaeth er mwyn deall eu hanghenion a'u dymuniadau orau y gallwn.

## 4. Strategaeth Dementia

Cyflwynodd SGG ei hun a rhoddodd gyflwyniad byr, yn gyntaf ynghylch cyd-destun ei phenodiad i weithio gyda phartneriaid a phobl yn byw â dementia a'u gofalwyr i ddatblygu strategaeth dementia ar gyfer y rhanbarth a model wasanaethau ar gyfer llwybr gofal.

Yn ail, rhoddodd ddarlun manwl o'r broses o baratoi'r adroddiad a'r heriau a grëwyd gan Covid-19. Ynghyd â'r gwaith hwn, roeddent hefyd wedi cynnal adolygiad o brosiectau dementia y Gronfa Gofal Canolraddol ac wedi creu matrics blaenoriaethau

a chynnig awgrym i gydweithwyr o’r mathau o brosiectau ddylid eu hariannu dros y 12 mis diwethaf.

Roeddent wedi alinio’r model gyda’r blaenoriaethau ar gyfer dementia, gan symud o waith atal, cynllunio ac addysg ac ymlaen at ofal a chefnogaeth Dementia arbenigol. Roeddent wedi edrych ar yr argymhellion, gan nodi sawl mater a chreu llwybr gofal, edrych ar arfer da, ac roeddent wedi creu fframwaith blaenoriaethau a’i alinio gyda safonau llwybr gofal dementia y Llywodraeth i weld sut ellid eu plethu i’w gilydd. Roeddent wedi creu fframwaith blaenoriaethau yn ogystal â llunio rhaglen ddarparu. Roeddent eisiau symud y tu hwnt i’r strategaeth, a buont yn edrych ar y syniad o weithredu rhai o’r syniadau.

Gofynnodd JH a neilltuwyd swm ar wahân ar gyfer dementia yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Esboniodd KB fod yna ddyraniad penodol ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy’n cynnwys dyraniad ar wahân a gafodd ei glustnodi ar gyfer Dementia. Ychwanegodd KN y gallai rhywfaint o arian ychwanegol fod ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau dementia eleni hefyd.

Diolchwyd i SGG a’i thîm am eu gwaith a gofynnwyd i’r BPRh gymeradwyo’r strategaeth. Gofynnodd HLL a allai’r BPRh weld y strategaeth a’r cynnig buddsoddi gyda’i gilydd, dim ond i wneud yn siŵr fod yr arian yn cael ei wario ar y blaenoriaethau a gytunwyd, ac i wneud y gymhariaeth honno.

Dywedodd KB fod y grŵp llywio Dementia wedi penodi rheolwr rhaglen i oruchwylio’r cynllun gweithredu dementia a’r gwaith cysylltiol. Mae Monica Bason-Flaquer yn cychwyn yn ei swydd ar 23 Mai 2022. Bydd cael adnodd pwrpasol yn gwneud gwahaniaeth mawr gan y gallwn symud o’r cyfnod cynllunio i weithredu’r strategaeth.

Gofynnodd JH i’r BPRh a oeddent yn fodlon cymeradwyo’r strategaeth ac fe gytunwyd hynny.

## 5. Cronfa Integreiddio Rhanbarthol: Diweddariad

Rhoddodd KB adroddiad cryno i’r BPRh.

Cadarnhawyd hyn yng nghyfarfod diwethaf y BPRh a chytunwyd fod angen rhagor o waith mireinio ar drosolwg y cynnig i’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a gyflwynwyd ar y pryd.

Gofynnwyd i’r Grŵp Gweithredol Integredig wneud rhagor o waith mireinio ar y costau, er mwyn sicrhau bod dyblygu’n cael ei osgoi, blaenoriaethu rhai o’n prosiectau i’w cynnwys, cyfrif lefel dderbyniol o ymrwymiad y byddem yn fodlon ei hargymell yn y flwyddyn gyntaf a rhoi sicrwydd i bartneriaid eu bod yn derbyn cyllid sydd gymesur ag anghenion eu poblogaeth.

Dywedodd y cafodd y gwaith ei gwblhau erbyn hyn trwy’r Grŵp Gweithredol Integredig a grwpiau lleol, ac maent wedi amlinellu sut mae crynodebau rhaglenni yn edrych ar lefel sirol a rhanbarthol o gymharu â sirol.

Darparwyd manylion yn yr adroddiad yn dangos sut mae'r prosiectau'n cael eu rhannu trwy eu gwreiddio neu gronfeydd model newydd. Esboniodd KB fod y costau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Dywedodd fod yna rai trafodaethau terfynol ar rai rhaglenni ac y cyflwynwyd trosolwg i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp yn gobeithio cwblhau'r cyflwyniad yr wythnos hon.

Dywedodd JH y cynhelir cyfarfod gyda holl Gadeiryddion ac Arweinyddion Rhanbarthol y BPRhau gyda'r Gweinidog Iechyd lle y mae disgwyl iddynt amlinellu'r sefyllfa gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac roeddent yn cael saith munud yr un ar gyfer cyflwyniadau. Roedd yn anodd cael trosolwg gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu templed safonol, ac roedd cryn amrywiaeth yn y gwahanol gyflwyniadau a roddwyd.

Cafodd y BPRhau hynny a gyflwynodd gynigion buddsoddi i Lywodraeth Cymru adborth manwl iawn, gan gwestiynu pethau a gafodd neu na chafodd eu cynnwys. Dywedodd ei bod yn gobeithio y bydd ymdrechion KB i gadw cefnogaeth cysylltiadau Llywodraeth Cymru trwy gydol yr holl drafodaethau yn golygu na fydd unrhyw beth annisgwyl pan gyflwynir y cynigion, gan y rhoddwyd adborth yn rheolaidd.

**GWEITHREDU:** Bydd KB yn darparu gwybodaeth ynghylch pryd gaiff y cyflwyniad terfynol ei wneud ac yn rhoi manylion am unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru.

## 6. Y Gronfa Gofal Canolraddol (CGC) diwedd blwyddyn / rhaglen: Diweddariad

Rhoddodd KN ddiweddariad ar y gwariant refeniw ar ddiwedd blwyddyn, a dywedodd er ei bod yn ddiwedd ar CGC, y byddai arian Dementia yn parhau ar gyfer eleni ac yn dod o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Wrth adrodd ar Arian Cyfalaf, dywedodd y cwblhawyd nifer o raglenni eleni. Nododd hefyd fod nifer wedi bod yn cael eu datblygu dros sawl blwyddyn ac na chawsant eu cwblhau oherwydd y pandemig. Dywedodd y cafodd y rhan fwyaf o'r arian hwnnw ei reoli o fewn y rhaglen.

O blith y rhaglenni a gwblhawyd, cafwyd cais gan y Gweinidog i ymweld â rhai o'r rhaglenni hynny. Bydd KM yn darparu manylion ar y rhai allai fod yn addas ar gyfer ymweliad yn ddiweddarach.

Gofynnodd JH a yw'r tanwariant yn nyraniad cyfalaf 2021/22 fydd yn cael ei gario ymlaen yn cael ei ychwanegu at y dyraniad cyfalaf newydd ar gyfer 2022/23. Cadarnhaodd KN mai dyna fydd yn digwydd.

Nododd KN fod y dyraniad Pwysau'r Gaeaf wedi cael ei wario'n llawn hefyd, a bod y deilliannau'n gydnaws â'r hyn a ddisgwylid. Cafodd yr adroddiad gwerthuso ei gwblhau gan Old Bell3 a chafodd ei gyhoeddi.

Gofynnodd EL a gafodd rhai o'r deilliannau hynny eu rhannu'n barod, neu a oedd angen eu cynnwys yn ein cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd KM fod adrodd ar y deilliannau yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Hefyd, dylai pob un o'r

prosiectau wneud eu monitro, gwerthuso ac adolygu eu hunain ar y gwasanaethau i ddeall yr effaith a gafwyd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Ychwanegodd na chafodd y wybodaeth a gasglwyd gan y gwasanaethau ei chynnwys yn yr adroddiadau i Lywodraeth Cymru gan nad oedd unrhyw drefn ar gyfer cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiadau.

Dywedodd KB, yn ogystal â CTG Cyfalaf, sy'n disodli CGC, y Gronfa Tai â Gofal, fod yna hefyd ddyraniad cenedlaethol o Gronfa Gyfalaf ailgydbwyso yr ydym wedi cyflwyno rhai prosiectau braenaru ar ei chyfer. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddwn yn datblygu strategaeth gyfalaf deng mlynedd. Bydd y cynllun hwn yn crynhoi'r holl gronfeydd cyfalaf at ei gilydd. Cyflwynir papur i'w drafod gan y bwrdd yn y dyfodol.

Awgrymodd HLL ein bod yn datblygu fframwaith deilliannau sy'n gweithio inni yng Ngorllewin Cymru yr ydym yn ymrwymo iddo, sy'n cynnwys ffordd o fesur effaith y cawsom ein halinio iddo ac sy'n ein helpu i ddeall a yw ein buddsoddiad yn ein helpu i gyflawni ein deilliannau. Diolchwyd i KN am reoli'r arian CGC dros y blynyddoedd.

7. **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 18 Gorffennaf 2022 2pm**

Hoffai JH weld a fyddai modd edrych ar drefnu'r cyfarfod nesaf yn un wyneb yn wyneb, gan gadw'r dewis o gysylltu o bell ar gyfer y sawl na allant fod yno'n bersonol.

**GWEITHREDU:** KB a'r tîm i edrych am leoliad addas i hwyluso hynny.

**8. Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd JG y cawsant y pleser ddydd Gwener o fynd â rhai gwobrau ar gyfer Bwrdd Diogelu Gorllewin Cymru a drefnwyd o gwmpas arferion diogelu yn ystod yr ymateb i Covid-19. Dywedodd eu bod yn ddathliad o ymarferwyr a staff rheng flaen. Roedd am i'r BPRh ystyried dathlu darpariaeth rheng flaen, ac roedd yn tybio y gallem feddwl am seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer y BPRh i ddathlu cyflawniadau staff rheng flaen y byddai'r BPRh yn eu noddi ar draws y sector. Byddent yn darparu llwyfan ar gyfer gwasanaethau da yn y rhanbarth, a gallem wahodd gweinidog neu ddirprwy weinidog i fod yn bresennol. Dywedodd ei fod yn credu ei bod yn dda dathlu hyn, yn enwedig gan fod gennym heriau gyda'r gweithlu, a dylem fod yn dathlu deilliannau cadarnhaol. Mae JH yn credu ei fod yn syniad da ac roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad.

**GWEITHREDU:** KB a'r Grŵp Gweithredol Integredig i edrych ar y syniad.

Dywedodd HLL eu bod wedi cael llwyddiant yng Ngheredigion yn denu swm sylweddol o arian o'r Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiect 'Gofalu am ein Dyfodol'. Bydd yn dechrau'n fuan iawn yn gweithio gyda phobl ifanc, a phobl ifanc yn dylanwadu ar a datblygu gweithgareddau a gwasanaethau i helpu datblygu pobl ifanc eraill, yn enwedig ynghylch iechyd meddwl. Mae'r Loteri Genedlaethol eisiau gweld pobl ifanc yn dylanwadu ar y strategaeth ac yn newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Dywedodd ei bod yn bwriadu gwneud peth o'r gwaith gyda'r Bwrdd Plant. Mae HLL yn

credu hefyd fod angen inni edrych ar sut all y gwaith hwnnw ddylanwadu ar y BPRh a helpu gyda rhaglen NYTH. Bydd Ardal 43 yn arwain ar y prosiect hwnnw yng Ngheredigion, ac mae'n brosiect pum mlynedd, a defnyddir y flwyddyn gyntaf i ddatblygu'r cynllun.

**BPRh GORLLEWIN CYMRU: CAMAU GWEITHREDU**

| ID | Gweithred | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/22/3 | Dod â'r maniffesto wedi'i ddiweddaru i'r BPRh i'w gymeradwyo | KB | Gorffennaf 2022 | Ailystyried y Maniffesto a Cylch Gorchwyl yng ngweithdy BPRh yn yr Hydref | |
| 07/22/3 | Rhannu'r mapio o brosiectau a ariannwyd yn y cyfarfod nesaf | KB | Gorffennaf 2022 | KB i rannu cynigion y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol manwl yng nghyfarfod y BPRh ym mis Gorffennaf | |
| 05/22/1 | EL i rannu ei chyflwyniad ar Gyflymu Datblygu Clystyrau gyda KB | EL | | | |
| 05/22/3 | KB a'r tîm i edrych am leoliad addas i gynnal y cyfarfod BPRh nesaf yn gyfarfod wyneb yn wyneb | KB | | | |
| 05/22/4 | KB a'r Grŵp Gweithredol Integredig i archwilio'r syniad o wobrau BPRhGC | KB | | | |